## ATODLEN 3

Rheoliadau 1(2)(c)

### GWYBODAETH Y MAE EI HANGEN AM BERSONAU SY'N GWNEUD CAIS AM REOLI NEU WEITHIO AT DDIBENION Y GWASANAETH MABWYSIADU

**1.** Prawf o bwy yw'r person gan gynnwys ffotograff diweddar.

**2.** Naill ai—

(a) pan fo'r swydd yn ymwneud yn rheolaidd a gofalu ar ol, hyfforddi, arolygu neu fodyn unig un a gofal o bersonau o 18 oed neu llai tystysgrif ddiweddaredig a ddyroddwyd o dan adran 113B o'r Ddeddf honno ac y mae llai na thair blynedd wedi mynd heibio ers ei dyroddi; neu

(b) ym mhob achos arall, tystysgrif cofnod troseddol a ddyroddwyd o dan adran 113A o Deddf yr Heddlu 1997 ac y mae llai na thair blynedd wedi mynd heibio ers ei dyroddi.

**3.** Lleiafswm o ddau dystlythyr ysgrifenedig, gan gynnwys tystlythyr gan gyflogwr diweddaraf y person, os oes un.

**4.** Os bydd person wedi gweithio o'r blaen mewn swydd yr oedd ei dyletswyddau'n cynnwys gweithio gyda phlant neu oedolion hawdd eu niweidio, i'r graddau y bydd yn rhesymol ymarferol cadarnhad o'r rhesymau pam y daeth y gyflogaeth neu'r swydd i ben.

**5.** Tystiolaeth ddogfennol o unrhyw gymhwyster perthnasol.

**6.** Hanes cyflogaeth yn llawn, ynghyd ag esboniad ysgrifenedig boddhaol o unrhyw fylchau yn y gyflogaeth.